CYLCHGRAWN AR GYFER FFERMIO A CHOEDWIGAETH YNG NGHYMRU

# cyswllt FFERMIO

FARMING connect
cyswllt FFERMIO
08456 000 813

**Ffair Aeaf 2019**
Dewch i ymweld â ni yn y Ffair Aeaf er mwyn trafod cyfleoedd ar gyfer eich busnes

**Arloesi ac Arallgyfeirio**
Darganfyddwch beth oedd gan y siaradwyr i'w ddweud am y digwyddiad cyffrous yma



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIFYN 24 - Tachwedd/Rhagfyr 2019 | www.llyw.cymru/cyswlltffermio

# DIOLCH

Ar ran tîm technegol Cyswllt Ffermio a'r holl ffermwyr sydd wedi mynychu digwyddiad, neu wedi derbyn gwybodaeth, syniadau neu fagu profiad o ganlyniad i waith a gwblhawyd ar y safleoedd arddangos - hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'n ffermwyr arddangos.

Rhwng mis Hydref 2015 a mis Medi 2019, mae ein rhwydwaith o 12 safle arddangos wedi:

**cynnal 193 o ddigwyddiadau**

**croesawu 4,000 o fynychwyr**

**cynnal 38 o brosiectau**

Prif nod safle arddangos yw dangos sut allai technoleg neu wahanol dechnegau rheolaeth wella cynhyrchiant, neu mewn rhai achosion, sut nad yw cynhyrchiant yn gwella. Dyma'r risg oedd ein ffermwyr arddangos yn fodlon ei wynebu drwy gytuno i fod yn safle arddangos ac agor giât y fferm i ffermwyr o bob cwr o Gymru.

Rydym ni wedi cael y fraint o weithio gyda ffermwyr gwych sydd wedi ymrwymo i wella eu busnesau, croesawu arloesedd, a derbyn cyngor gan nifer o unigolion gyda'r nod o wella cynhyrchiant ac effeithlonrwydd eu busnesau, ysbrydoli a chaniatáu i eraill ddysgu o'u profiadau yn y pen draw.

Dros y pedair blynedd diwethaf, rydym ni wedi canolbwyntio ar wahanol systemau ffermio ar bob un o'r safleoedd, gan gynnwys gwella iechyd y pridd, cynhyrchiant glaswellt, iechyd anifeiliaid, geneteg a rheoli busnesau. Am ragor o fanylion am y prosiectau a gwblhawyd ar ein safleoedd arddangos, ewch i'n gwefan, neu cymrwch olwg ar y llyfryn Adolygiad Safleoedd Arddangos.

Rydw i hefyd yn falch iawn o'r gydnabyddiaeth genedlaethol a dderbyniwyd gan ein ffermwyr arddangos, gan gynnwys Ffermwr Bîff y Flwyddyn *(Gwobrau'r Farmers Weekly)*, Gwobr Silver Lapwing a Ffermwr Ifanc y Flwyddyn *(Gwobrau'r Farmers Weekly)* i enwi ambell un.

Gall gweithio fel fferm arddangos fod yn gyffrous ac yn heriol, ac rydym ni wedi gweithio'n agos gyda'r ffermydd unigol i sicrhau ein bod wedi eu cefnogi i wireddu eu huchelgais. Fel ar bob fferm ledled Cymru, mae'r sefyllfaoedd a'r nodau'n wahanol, p'un a yw hynny'n golygu gwella cynhyrchiant y busnes, cynyddu niferoedd stoc neu allu treulio mwy o amser gyda'r teulu. Rydw i'n gobeithio ein bod wedi eu cynorthwyo i gyflawni'r nodau hynny.


Rydw i hefyd yn gobeithio bod profiadau'r ffermwyr fel ffermwyr safleoedd arddangos wedi eu cynorthwyo fel unigolion er mwyn iddynt allu addasu a ffynnu yn y dyfodol.

**Mae gan Cyswllt Ffermio 18 safle arddangos newydd bellach. Mae gwybodaeth ynglŷn â'r safleoedd newydd, prosiectau a digwyddiadau ar gael ar: www.llyw.cymru/cyswlltffermio**

*Os nad ydych chi wedi derbyn copi o'r Adolygiad Safleoedd Arddangos, cysylltwch â'ch swyddog datblygu lleol.*



**DEWI HUGHES**
Rheolwr Datblygu Technegol, Cyswllt Ffermio






CAFC RWAS

## Dewch i ymweld â ni yn y Ffair Aeaf er mwyn trafod cyfleoedd ar gyfer eich busnes

Bydd y gefnogaeth gan Cyswllt Ffermio yn y Ffair Aeaf ar faes y Sioe Frenhinol ar 25-26 Tachwedd, yn well nag erioed. Ar y balconi ar lawr cyntaf yr adeilad da byw, bydd Swyddogion Datblygu Cyswllt Ffermio yn ogystal â chynrychiolwyr eraill Cyswllt Ffermio, ar gael i sgwrsio â ffermwyr a thrafod y cyfleoedd, y gwasanaethau a'r digwyddiadau sydd ar gael o fewn y rhaglen, i sicrhau'r effeithlonrwydd a phroffidioldeb gorau posib.

Rydym yn byw mewn oes ddigidol. Mae'r busnesau fferm a choedwigaeth fwyaf blaengar yn sicrhau eu bod yn gwneud y mwyaf o dechnoleg – gyda'r sgiliau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGaCh) cywir. Un o'r elfennau y bydd Cyswllt Ffermio yn canolbwyntio arnynt yn y Ffair Aeaf eleni, fydd arddangos y gefnogaeth, arweiniad, hyfforddiant a mentora sydd ar gael i ffermwyr a choedwigwyr yng Nghymru i wella eu sgiliau TGaCh. Byddwn hefyd yn hyrwyddo edrychiad gwefan newydd Cyswllt Ffermio a'r platfform BOSS, ble gallwch ddarganfod modiwlau e-ddysgu, a'r Storfa Sgiliau, sef y system cofnodi Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD), sy'n cynnwys pob gweithgaredd trosglwyddo gwybodaeth a hyfforddiant y mae unigolion cofrestredig wedi cymryd rhan ynddynt yn ystod rhaglen bresennol Cyswllt Ffermio.

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn datblygu eich sgiliau TGaCh neu eich sgiliau cyfrifiadurol, hyd yn oed os nad ydych chi'n siŵr ble i ddechrau gyda chyfrifiadur neu dechnoleg – bydd staff Cyswllt Ffermio yno i helpu. Bydd hwb a sesiwn galw heibio TGaCh ar gael yn adeilad Lantra – lle cewch wybod mwy am fanylion gweithdai cyfrifiaduron a chyrsiau dechreuwyr, yn ogystal â gweld yr amrywiaeth o adnoddau ar-lein a ddefnyddir gan Cyswllt Ffermio a'r gwasanaethau sydd ar gael arnynt. Bydd sesiwn gyffrous arddangos dronau ymlaen yno hefyd trwy ddefnyddio gogls Rhith Wirionedd!




*Bydd y swyddogion datblygu ar falconi llawr cyntaf yr adeilad Da Byw hefyd ar gael i'ch helpu gyda'ch anghenion TGaCh - gydag iPads.*

Bydd Swyddogion Technegol Coedwigaeth yn rhannu stondin gyda Coed Cymru a bydd mwy o gynrychiolwyr Cyswllt Ffermio ar stondin Llywodraeth Cymru yn Neuadd De Morgannwg.

Felly, dewch i'n gweld yn y Ffair Aeaf - mae Cyswllt Ffermio yma i'ch cefnogi a gwneud y gorau o'r gwasanaethau i ddatblygu eich busnes. Mae'r amser yma yn holl bwysig i'r sector, yn enwedig perchnogion busnes, i baratoi am y dyfodol a chyflawni eu potensial ar draws yr holl feysydd gwaith.

# ARLOESI AC ARALLGYFEIRIO CYMRU 26/09/2019

## Adroddiad Digwyddiad Arloesi ac Arallgyfeirio

Sut fydd eich busnes coedwigaeth neu'ch fferm chi yn edrych yn 2030? Os oeddech chi'n un o'r mil o bobl a mwy a fynychodd ddigwyddiad Arloesi ac Arallgyfeirio Cymru Cyswllt Ffermio a gynhaliwyd ar faes y Sioe Frenhinol ar 26 Medi, mi fydd gennych syniad yn barod!

Roedd Cyswllt Ffermio wedi dwyn ynghyd dros gant o sefydliadau ac unigolion o faes arloesi, technoleg ac arallgyfeirio gyda deg ar hugain o siaradwyr ysbrydoledig o Gymru, y DU a thu hwnt. Eu cylch gwaith ar y cyd oedd ysbrydoli, cymell ac annog tyrfa enfawr yr ymwelwyr i agor eu meddyliau i arloesi a thechnoleg, a'u helpu i sicrhau'r ffordd o feddwl, yr hyder a'r galluoedd y mae eu hangen arnoch er mwyn trawsnewid syniadau arallgyfeirio yn stori lwyddiannus.

**Dyma oedd gan siaradwyr, mynychwyr, arddangoswyr a staff Cyswllt ffermio i'w ddweud am y digwyddiad cyffrous yma, a gynhaliwyd am y tro cyntaf eleni.**



Bu Daniel Sumner, cyfarwyddwr 'byd-eang' cwmni Microsoft yn Seattle, ac a anwyd ar Ynys Môn yn siarad yn y digwyddiad. Soniodd wrth y gynulleidfa am 'Ryngrwyd y Pethau', gwerth gwybodaeth artiffisial a'r Cwmwl, gan esbonio sut y mae angen i deuluoedd amaethyddol a chymunedau gwledig groesawu'r technolegau newydd hygyrch hyn er mwyn rhedeg busnesau mwy effeithlon a chystadlu mewn marchnad fyd-eang.

Dywedodd Campbell Mauchan, cynrychiolydd AgriWebb ac arddangoswr yn y digwyddiad:

"Cawsom ein syfrdanu gan yr ymateb a gawsom yn y digwyddiad yma. Rydym wedi cael cymaint o bobl yma yn aros i siarad â ni, chawsom ni ddim cyfle i siarad â phawb. Rydym wedi mwynhau'r diwrnod yn fawr iawn ac wedi synnu pa mor brysur oedd hi a maint y digwyddiad."





Bu Sophie Colquhoun o Category Insight, arbenigwr ym maes strategaeth categori, marchnatwr bwyd profiadol yn cyflwyno gwybodaeth am gwsmeriaid yfory ac o 'ddefnyddwyr ymwybodol' sy'n dymuno newid y ffordd y maent yn byw ac yn bwyta.

"Mae eisoes yn ffasiynol i fod yn garedig i'r amgylchedd," meddai Sophie. "Mae angen i unrhyw un sy'n dymuno cychwyn neu ddatblygu menter newydd fod yn ymwybodol o'r tueddiadau yn y dyfodol cyn iddynt fuddsoddi eu harian a'u hamser."

Dywedodd Claire Jones, ffermwr bîff a defaid o'r Garth ger Llanfair ym Muallt sydd yn y llun yn siarad gyda Sophie, bod ei seminar wedi ei hysbrydoli a'i fod yn llawn gwybodaeth.

Bu Wilfred Emmanuel-Jones, y gŵr busnes carismatig a'r entrepreneur bwyd a anwyd yn Jamaica, sy'n adnabyddus fel 'The Black Farmer', yn cyfareddu cynulleidfa a oedd wedi ymgolli wrth iddo roi cyngor, megis:

"Mae angen i chi deimlo'n angerddol am yr hyn yr ydych yn mynd i'w wneud, gan fod angerdd yn herio rheswm a rhesymeg, ac mae'r ddau beth yna'n gallu eich dal yn ôl!

"Dylech fod yn ddidrugaredd o ran eich ffocws, a pheidiwch â gwrando ar yr amheuwyr nad oes ganddynt y dewrder na'r beiddgarwch i roi cynnig ar rywbeth newydd neu wahanol eu hunain."





Wrth gloi'r digwyddiad, dywedodd Eirwen Williams, cyfarwyddwr rhaglenni gwledig gyda Menter a Busnes,

"Hwn fu'r digwyddiad mwyaf ar gyfer sector penodol a gynhaliwyd gan Cyswllt Ffermio, ac mewn sawl ffordd, mae wedi bod yn un o'n rhai mwyaf gwerth chweil.

"Mae'r ffaith y llwyddwyd i ddenu dros fil o ymwelwyr ar gyfer y digwyddiad cyntaf o'i fath a'i faint a gynhaliwyd erioed yng Nghymru, yn dangos, er gwaethaf yr ansicrwydd economaidd presennol ar draws ein diwydiant, bod gweithlu dynamig a blaengar allan yno, y maent oll yn benderfynol o sicrhau bod pob elfen o'u busnes yn gwireddu ei botensial yn llawn."

**Bydd crynodeb llawn o'r digwyddiad a chyfle i glywed yr holl gyflwyniadau gan y siaradwyr, a fideos amrywiol eraill ar gael ar sianel YouTube Cyswllt Ffermio. Ewch ar www.youtube.com a rhowch 'Cyswllt Ffermio' o fewn y bar chwilio.**

# Bwydo protein a'i effaith ar ffrwythlondeb

**Dr Delana Davies - Swyddog Gweithredol Cyfnewid Gwybodaeth - Cyswllt Ffermio**

Mewn adolygiad gan Brifysgol Cornell o astudiaethau ynghylch dognau â llawer o brotein a ffrwythlondeb mewn buchod llaeth, nodwyd bod protein uchel wedi cael ei gysylltu yn aml â gostyngiad yn y perfformiad wrth genhedlu, er bod llawer o brotein yn y diet yn symbylu'r buchod i gynhyrchu llawer o laeth.

Mae yna gysylltiad uniongyrchol rhwng gwerth biolegol protein yn y deiet i'r fuwch laeth sydd wrthi'n llaetha a statws egni'r fuwch a chydbwysedd yr asidau amino sydd wedi'u hamsugno o'u cymharu ag anghenion yr anifeiliaid. Mewn buchod sy'n llaetha, mae'r protein crai yn y deiet yn cynnwys ffracsiynau o RDP (Protein sy'n Diraddio yn y Rwmen) a RUP (Protein nad yw'n Diraddio yn y Rwmen). Drwy gyfrwng yr eplesu arferol yn y rwmen, mae'r RDP yn cynnig ffynhonnell amonia at synthesu protein microbaidd. Mae rhywfaint o'r amonia'n dianc heb gael ei ymgorffori gan y micro-organebau, yn tryledu o'r rwmen i mewn i'r gwaed portal, ac yn cael ei ddadwenwyno yn yr iau drwy ei droi'n wrea. Mae faint o amonia sy'n cael ei gynhyrchu yn y rwmen a faint sy'n dianc i gael ei droi'n wrea yn adlewyrchu'r RDP yn y deiet a faint o garbohydradau eplesadwy sydd ar gael yn y rwmen i helpu microbau i dyfu ac i helpu i synthesu protein.

Ffynhonnell arall yr wrea a gynhyrchir yn yr iau yw dadamineiddiad a metabolaeth asidau amino. Mae asidau amino sy'n cylchredeg yn deillio o RUP, protein microbaidd, a storfeydd protein yn y corff. Bydd asidau amino nad ydyn nhw'n cael eu defnyddio wrth syntheseiddio protein llaeth yn cael eu dadamineiddio gan yr iau gan gynhyrchu is-haenau egni a wrea. Er bod modd lleihau faint o amonia a wrea a gynhyrchir drwy gydbwyso'r RDP a'r RUP, mae diet mawr i helpu buchod i gynhyrchu llaeth ac amrywiadau yn y protein microbaidd yn y rwmen a gynhyrchir yn ei gwneud yn anodd iawn rhagweld yn fanwl gywir pa asidau amino fydd ar gael. O ganlyniad, **mae'r mwyafrif o fuchod sy'n cynhyrchu llawer o laeth yn bwyta mwy o brotein na'r angen, ac mae crynodiad y wrea yn eu gwaed yn cynyddu**.


Mae'r wrea sy'n cylchredeg yn y gwaed yn cael ei fesur a'i gyfeirio ato fel nitrogen wrea gwaed (BUN). Bydd wrea'n pasio'n hawdd o'r gwaed i'r llaeth yn y chwarren laeth. Mae nitrogen wrea llaeth (MUN) yn ffordd gyflym, heb lawdriniaeth, a llai costus o asesu'r BUN a monitro metabolaeth gyffredinol protein mewn buchod sy'n llaetha. Mae mesuriadau BUN neu MUN wedi rhoi mynegai defnyddiol at astudio'r cysylltiad rhwng metabolaeth protein yn y diet ac effeithlonrwydd wrth atgenhedlu. **Ar draws llawer o astudiaethau, gwelwyd cydberthyniad rhwng crynodiad uwch o BUN neu MUN a gostyngiad yn ffrwythlondeb buchod llaeth, a hynny mewn buchesi o dan do a buchesi a oedd yn pori yn yr awyr agored.**

Mae buchod fferm Pensarnau yn byw o dan do dros y rhan fwyaf o'r flwyddyn gan fwyta dogn TMR sydd wedi'i seilio ar dri thoriad o silwair glaswellt. Pan fo'r buchod yn cael eu symud i'r porfeydd neu i silwair ac ynddo lefel protein crai uwch, mae'r ffermwr wedi sylwi bod lefelau'r wrea yn y llaeth yn codi a bod y ffrwythlondeb yn gostwng o ran nifer y buchod sy'n llwyddo i feichiogi ar yr adeg yma.

**Nodau'r prosiect Safle Ffocws hwn yw:**

- Casglu gwybodaeth am lefelau wrea yn y llaeth, lefelau wrea yn y gwaed, lefelau'r protein crai yn y dognau a chofnodion ffrwythlondeb
- Dadansoddi'r wybodaeth hon i weld a fydd cysylltiadau yn dod i'r amlwg
- Cynnig canllawiau ar ail-lunio dognau'r gwartheg ar y fferm er mwyn sicrhau gwell canlyniad o ran cyfraddau beichiogi

Mae'r gwaith prosiect cychwynnol wedi canolbwyntio ar adolygu lefelau wrea yn y llaeth yn y tanc dros amser (Ffigwr 1).




**Ffigwr 1:** *Wrea yn y llaeth yn y tanc fel adroddwyd gan NMR o Ionawr 2018 hyd at Awst 2019.*

Mae wrea yn y llaeth yn y tanc yn cynrychioli cyfartaledd cyfaint wedi'i bwyso ar gyfer yr holl anifeiliaid oedd yn cyfrannu i'r tanc ar ddiwrnod y profi, ond bydd gwaith pellach yn archwilio mewn mwy o fanylder y mesuriadau MUN a BUN ar gyfer buchod penodol ar ddechrau llaethiad o gwmpas amser derbyn tarw. Mae'r cynnydd yn y ffigwr MUN yn ystod haf 2019 yn cyd-fynd â bwydo silwair trydydd toriad 2018 sydd yn cynnwys lefelau uchel o brotein crai ac amonia (Tabl 1). Bydd cofnodion ffrwythlondeb a phroffiliau metabolig gwaed yn cael eu dadansoddi gyda'i gilydd dros y misoedd nesaf.

| | Techneg dadansoddi | | |
|---|---|---|---|
| | NIR gwlyb (*% deunydd sych*) | NIR sych (*% deunydd sych*) | Cemeg wlyb (*% deunydd sych*) |
| Deunydd sych | 25.4 | 23.7 | 24.9 |
| Protein crai | **19.7** | **21.2** | **18.04** |
| Amonia (% o gyfanswm y nitrogen) | 15.5 | 22.4 | Amherthnasol |
| Ffibr glanedol niwtral | 49.2 | 50.2 | Amherthnasol |
| Siwgr | 4.7 | 2.4 | Amherthnasol |
| Olew | 4.6 | 5.7 | Amherthnasol |
| Lludw | 15.6 | 13.4 | Amherthnasol |
| pH | 4.7 | 4.7 | Amherthnasol |

**Tabl 1:** *Canlyniadau o samplau a gymerwyd o silwair trydydd toriad Pensarnau a'i ddadansoddi gan ddefnyddio tair techneg wahanol.*

PROSIECT SAFLE FFOCWS:

# Mynd i'r afael â chloffni mewn gwartheg bîff

Ers iddo gymryd yr awenau ar Fferm Trapps, Simpsons Cross, bum mlynedd yn ôl, mae Richard Dalton wedi symud o fuches odro i fuches o wartheg sugno Stabiliser. Mae wedi gwella ansawdd y porfeydd sydd ar gael ac mae'n rhan o raglen Rhagori ar Bori Cyswllt Ffermio. Mae'r fuches yn lloia yn y gwanwyn a llwyddodd 82% o'r fuches i fwrw llo mewn 5 wythnos yn ystod tymor 2018.Yn y blynyddoedd diwethaf mae Richard wedi cael trafferth gyda chloffni yn ei fuches ac mae'n awyddus i fynd i'r afael â'r broblem er mwyn cynyddu ei effeithlonrwydd o ran pesgi gwartheg cyn gynted â phosibl gan ddefnyddio bwyd cartref lle bo modd.

Aeth Richard ati i weithio gyda milfeddyg sy'n arbenigo ar gloffni, Sara Pederson, a milfeddyg y fferm ei hun i greu cynllun iechyd buches integredig i reoli cloffni yn y gwartheg bîff gan anelu yn y tymor hir at leihau'r ddibyniaeth ar wrthfiotigau. Mae gwartheg cloff yn magu llai o bwysau, maent yn cymryd mwy o amser i'w pesgi ac yn ychwanegu at gostau cynhyrchu yn sgil y gofynion ychwanegol o ran llafur, porthiant a lle mewn llociau. Ar ôl ymweliad gan Sara, cafodd dau brif achos cloffni eu nodi yn y fuches, sef troed aflan a dermatitis digidol. Yn y prosiect hwn ar Fferm Trapps, hoeliodd Sara ei sylw ar ddermatitis digidol. *(Rhoddwyd cyngor hefyd ar sut i reoli troed aflan).*

Amcangyfrifir bod dermatitis digidol (DD) yn bresennol ar fwy na 95% o ffermydd y Deyrnas Unedig. Mae dealltwriaeth newydd wedi dangos nad yw'n hirhoedlog iawn (yn para lai na 24 awr) yn yr amgylchedd ond ei fod yn ymledu mewn hylifau fel slyri, mwd a dŵr budr. Mae slyri'n broblem benodol gan fod yr asidedd yn creu llid ar y croen sy'n peri bod y croen yn llai effeithiol fel rhwystr ffisegol gan ganiatáu felly i'r haint fynd i'r droed. Credir mai gwartheg heintiedig yw prif ffynhonnell yr haint, a gall ffynonellau ail-heintio gael eu rheoli o fewn y fuches naill ai trwy ddifa neu drwy reolaeth gadarn ar y briwiau.

Ar ôl edrych ar yr amgylchedd a siediau'r gwartheg, argymhellodd Sara gynllun integredig â dau bwynt i fynd i'r afael â dermatitis digidol a'i gadw draw:

## 1. LLEIHAU CRONFA'R CLEFYD:

**Triniaeth ddwys:**
Trin yr holl friwiau yr un pryd i leihau lefelau'r haint yn y fuches a'r amgylchedd.

Yr arferion gorau wrth drin dermatitis digidol gweithredol.

- **a)** CODI y droed sydd wedi'i heintio mewn craets
- **b)** GOLCHI y briw â dŵr glân *(gan gynnwys y lle rhwng y carnau)*
- **c)** SYCHU y briw yn ofalus â phapur/swab glân
- **ch)** CHWISTRELLU â gwrthfiotig pwrpasol trwyddedig e.e. Engemycin
- **d)** Gadael i'r droed sychu am 30 eiliad
- **dd)** CHWISTRELLU ETO a gostwng y droed - does dim angen rhwymyn
- **e)** Dychwelyd y fuwch i fuarth glân, sych
- **f)** Cofnodi bod y fuwch wedi'i thrin a'i marcio'n weledol er mwyn sicrhau ei bod yn cael triniaeth ddilynol am 3-4 diwrnod

## 2. ATAL ACHOSION YN Y DYFODOL:

**ATAL** mathau newydd rhag dod i'r fuches

**ATAL** achosion newydd mewn anifeiliaid sydd heb eu heintio

**ATAL** hen achosion rhag dod yn ôl


**BIODDIOGELWCH** i atal achosion yn y dyfodol.

Osgowch brynu gwartheg sydd â briwiau DD ar eu traed. Anfonwch y gwartheg drwy faddon traed cyn gynted ag y dôn nhw i'r fferm a **CHADWCH NHW AR WAHÂN**

**HYLENDID:** Gofalwch reoli slyri yn gywir. Mae slyri'n cludo DD rhwng gwartheg a hefyd yn peri'r niwed yn y croen sy'n angenrheidiol er mwyn i DD gydio.

**GOLCHI TRAED:** Golchwch draed y gwartheg yn gyson ac yn gywir. Mesur atal hanfodol yw hwn – nid yw'n trin briwiau. Dyluniwch y baddon yn gywir (>3m o hyd) a'i ddefnyddio'n gyson, nid dim ond pan fydd y clefyd wedi torri allan.

Drwy gyfuniad o waredu'r gwartheg y nodwyd eu bod yn cario DD, golchi traed yn rheolaidd, rheoli slyri'n well a rhoi'r cynllun dau bwynt ar waith, roedd Richard yn teimlo ei fod wedi llwyddo i leihau lefelau'r dermatitis digidol yn arwyddocaol eleni ac fe fydd yn parhau â'r un dull yn ystod y gaeaf hwn.



**Sarah Hughes** - Swyddog Technegol Cig Coch, Cyswllt Ffermio

# Trosolwg o raglen Rhagori ar Bori

**Mae ffermwyr Cymru yn ffodus o gael ffermio mewn gwlad gyda phriddoedd addas a hinsawdd i dyfu llawer o laswellt o ansawdd. Derbynnir yn gyffredinol nad yw cynhyrchwyr yng Nghymru yn defnyddio'r adnodd gwerthfawr hwn i gryfhau cynaliadwyedd eu busnesau da byw yn llawn. Mae'r newidiadau i systemau cefnogi ffermydd a'r posibilrwydd o bris cynnyrch yn mynd yn fwy anwadal wedi cynyddu'r angen i edrych am ffyrdd o dorri costau trwy ddefnyddio ein porthiant da byw mwyaf cost effeithiol yn fwy effeithlon.**

Mae Cyswllt Ffermio wedi lansio Rhagori ar Bori y gwanwyn diwethaf, sef rhaglen uwch wedi ei hariannu'n llawn sydd yn cynnwys 3 lefel, Lefel Mynediad, Canolradd - a elwir hefyd yn Meistr ar Borfa, ac Uwch.

Mae datganiadau o ddiddordeb yn cael eu hasesu fesul un, ac unigolion yn dewis pa lefel sy'n berthnasol iddyn nhw.



RHAGORI AR BORI
PROSPER FROM PASTURE



## RHAGORI AR BORI - Lefel Mynediad

### MYNEDIAD

Mae Rhagori ar Bori ar lefel mynediad yn gyfres o bum digwyddiad undydd, gyda phob un wedi'i dargedu ar agwedd ragarweiniol benodol o ddefnydd glaswellt:

1) Deall eich busnes
2) Pridd a systemau cynaliadwy
3) Glaswelltau, perlysiau a chnydau porthiant
4) Rheolaeth pori ar gyfer busnes proffidiol
5) Iechyd a geneteg anifeiliaid.

Darperir yr hyfforddiant i grwpiau rhanbarthol trwy gyfuniad o drafodaethau rhyngweithiol, gwaith grŵp, gweithgareddau ymarferol ynghyd a chyflwyniadau gwerthfawr gan siaradwyr rhyngwladol adnabyddus. Mae siaradwyr blaenorol yn cynnwys Murray Rohloff, arbenigwr defaid o Seland Newydd; Joel Williams, addysgwr pridd o Awstralia; Marc Jones a Liz Genever, ymgynghorwyr uchel eu parch; a Richard Tudor, Eilir Evans, Rhys Williams a Matthew Jackson, ymarferwyr rheoli porfa llwyddiannus.

**Gall cyfranogwyr llwyddiannus y lefel mynediad symud ymlaen i lefel canolradd a elwir hefyd yn Meistr ar Borfa.**

## RHAGORI AR BORI - Lefel Canolradd – Meistr ar Borfa

### CANOLRADD
MEISTR AR BORFA

Mae'r lefel canolradd, MEISTR AR BORFA yn gwrs preswyl deuddydd ar gyfer ffermwyr bîff, defaid neu laeth sydd yn awyddus i wella eu dealltwriaeth o reoli porfa a dysgu am y wybodaeth a'r technegau diweddaraf sydd ar gael. Mae'r rhaglen yn cynnig cyfle i ffermwyr o'r un meddylfryd gyfarfod a rhannu syniadau ar ddatblygu eu busnes.

Mae'r diwrnod cyntaf yn canolbwyntio ar iechyd a ffrwythlondeb y pridd, lle bydd mynychwyr yn dysgu sut i archwilio eu caeau, o adnabod strwythur pridd i brofi a gwella ffrwythlondeb. Mae'r ail ddiwrnod yn canolbwyntio ar fesur a rheoli porfa, gan gynnwys y defnydd o fesurydd plât, meddalwedd rheoli glaswellt ac adolygiad o faeth da byw i annog y perfformiad gorau.

**Gall cyfranogwyr llwyddiannus Meistr ar Borfa sydd yn rhoi'r sgiliau a ddysgwyd ar waith yn eu busnes eu hunain, symud ymlaen i wneud cais i ymaelodi â grŵp uwch Rhagori ar Bori.**

## RHAGORI AR BORI - Grŵp Trafod Uwch

# UWCH

Roedd saith grŵp rhanbarthol ar draws Cymru, pum grŵp bîff a defaid a dau grŵp llaeth, gyda 10 aelod ym mhob grŵp, ac yn cael eu hwyluso a'u cadeirio gan ymgynghorydd Precision Grazing. Roedd yn rhaid i aelodau arddangos eu profiad gweithredol o reoli cylchdroadau pori a mesur y borfa er mwyn ymgeisio am eu lle yn y grwpiau.

Cafodd cyfarfodydd eu cynnal ar ffermydd yr aelodau, gan ganolbwyntio ar bynciau allweddol oedd yn dymhorol ac yn seiliedig ar ddata. Roedd gofyn i bob aelod ddarparu data am dwf eu glaswellt, gorchudd glaswellt cyfartalog, y gofyn am laswellt ac unrhyw ddata sy'n berthnasol i bwnc trafod y grŵp er mwyn meincnodi a hwyluso trafodaeth ar arfer dda.

Gall aelodau'r grwpiau llaeth gael mynediad i feddalwedd rheoli glaswelltir AgriNet a gwasanaeth mapio fferm, ac mae aelodau'r grwpiau llaeth bîff a defaid yn cael mynediad i feddalwedd cynllunio fferm Farmax.

**Caiff aelodau grwpiau trafod eu cefnogi'n gyson ar sut i fewnbynnu a dadansoddi data meddalwedd ac wrth weithredu dulliau rheoli allweddol. Defnyddir webinarau byr a grwpiau cyfryngau cymdeithasol rhyngweithiol o fewn y grwpiau er mwyn rhannu arfer dda a chynyddu'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt.**



RHAGORI AR BORI
PROSPER FROM PASTURE

Gweler isod farn unigolion sydd wedi cymryd rhan yn y rhaglen Rhagori ar Bori yn ystod 2019...

"Mae'r rhaglen wedi rhoi'r hyder i mi ganfod ansawdd ac iechyd y pridd, trefnu'r systemau pori ac i reoli maint fy muches, lleihau costau ar y fferm ac mae wedi fy ysbrydoli i wneud gwaith ymchwil."



Cheryl Reeves
*Aelod lefel mynediad*

"Mae'r lefel mynediad Rhagori ar Bori wedi rhoi sylfaen dda o wybodaeth dechnegol ac ymarferol i mi wrth i mi edrych ar wahanol ffyrdd o wella proffidioldeb y fferm."

Rhodri Jones
*Aelod lefel mynediad*

"Mae Rhagori ar Bori wedi bod yn agoriad llygad. Roedd wedi cael ei drefnu'n dda ac yn rhedeg yn llyfn. Roedd ansawdd y siaradwyr a'u cyflwyniadau'n berffaith, ac roedd y pwnc yn berthnasol ac yn ddiddorol iawn."

Patrick Loxdale
*Aelod lefel mynediad*

"Mae'r sgiliau yr ydw i wedi eu dysgu fel rhan o'r grŵp Rhagori ar Bori a defnyddio meddalwedd Farmax wedi fy ngalluogi i dyfu 15t/DM/ha yn fwy o laswellt ac i gynyddu'r gyfradd stocio i 2,250kgLW/ha gan leihau costau gorbenion ar yr un pryd."

Aled Evans
*Aelod o grŵp uwch*

"Mae'r gefnogaeth a ddarparwyd fel rhan o'r rhaglen Rhagori ar Bori wedi rhoi'r hyder i mi allu gwneud penderfyniadau busnes pwysig yn ymwneud â chyfradd stocio a chyllidebu porthiant ar gyfer y gaeaf, ac mae hynny wedi effeithio'n gadarnhaol ar effeithlonrwydd y fferm."



Rhidian Glyn
*Aelod o grŵp uwch*

Mae'r cyfnod ymgeisio **AR AGOR** nawr – rhwng **6 Tachwedd a 9 Rhagfyr**.
**YMGEISIWCH NAWR!** I ddatgan eich diddordeb, ewch i **www.llyw.cymru/cyswlltffermio**

MEISTR PORFA CYMRU
PORI AM ELW
WALES MASTER GRASS
GRAZING FOR PROFIT

# Meistr ar Borfa, yn atgyfnerthu gallu gofalwr buches i wneud penderfyniadau'n ymwneud â'r borfa

Dywed gofalwr buches ar fferm laeth yn Sir Benfro fod y wybodaeth a ddysgodd yn ystod rhaglen Rhagori ar Bori lefel canolradd Cyswllt Ffermio, a elwir hefyd yn Meistr ar Borfa, wedi rhoi'r hyder iddo wneud penderfyniadau pwysig yn ymwneud â rheoli glaswelltir.

Mae Will Dawson yn gyfrifol am reoli'r glaswelltir ar fferm Home Farm Dairy, Stackpole.

Ymgeisiodd am le ar lefel Meistr ar Borfa a gynhaliwyd ar fferm Gelli Aur yn gynharach eleni er mwyn datblygu gwell dealltwriaeth o fesur a defnyddio porfeydd ar gyfer y fuches o 550 o wartheg sy'n lloia yn y gwanwyn ar eu huned.

"Mae'r gallu i feintoli'r hyn sydd yn y cae a rhoi ffigwr arno yn hanfodol ar gyfer ein system," meddai Will, sy'n mesur glaswellt yn wythnosol ar Home Farm.

"Roedd yr arweiniad yr oeddwn i eisoes wedi ei dderbyn ar y fferm wedi rhoi tipyn o ddealltwriaeth i mi, ond daeth popeth at ei gilydd yn ystod y rhaglen, ac roedd popeth yr oeddwn i wedi'i ddysgu'n gwneud synnwyr.

"Roedd hi hefyd yn braf dysgu mwy am fioleg y planhigion eu hunain, er mwyn gallu gwerthfawrogi'r gwahanol gamau yn ystod twf planhigion. Roedd cynnwys y rhaglen a dealltwriaeth yr arbenigwyr a oedd yn ei gyflwyno yn wych," meddai Will.

"Roedd y siaradwyr yn ddeallus iawn ac yn cyflwyno'r wybodaeth mewn awyrgylch braf."

Cafodd y rhaglen ei hwyluso gan Abigail James Swyddog Technegol Llaeth Cyswllt Ffermio De Orllewin Cymru.

"Roedd Abby yn dda iawn am sicrhau bod popeth yn rhedeg yn effeithiol ac roedd hi'n annog pawb i ymuno yn y drafodaeth," meddai Will.

Roedd Meistr ar Borfa hefyd yn gyfle da i rwydweithio gyda phobl eraill sy'n rhannu'r un meddylfryd ac i rannu gwybodaeth at y dyfodol, ychwanegodd.

"Mae ambell un o'r ffermwyr wnes i eu cyfarfod yn defnyddio AgriNet, un o ogledd Cymru a'r llall o Sir Gâr, felly'n ardaloedd gwahanol iawn o ran twf glaswellt o'i gymharu â ni. Rydw i'n gallu gweld eu canlyniadau a'u cymharu gyda'n canlyniadau ni."

Roedd Will wedi cymryd rhan yn Meistr ar Briddoedd yn y gorffennol ac mae'n dweud bod deall mwy am y pridd wedi bod yn sylfaen dda ar gyfer Meistr ar Borfa.



"Mae'r gallu i feintoli'r hyn sydd yn y cae a rhoi ffigwr arno yn hanfodol ar gyfer ein system."

# Afiechydon 'Rhewfryn' mewn Defaid – Adolygiad o'r Prosiect

**ELAN DAVIES,** Swyddog Technegol Cig Coch Cyswllt Ffermio

Mae deall gwir statws iechyd eich diadell yn holl bwysig i gynnal defaid cynhyrchiol ac effeithlon, ac mae'n hanfodol i'ch diadell fod yn broffidiol. Ond, gall cynyddu effeithlonrwydd cynhyrchu da byw gael ei gyfyngu gan statws iechyd anifeiliaid, a hynny yn neilltuol gan afiechydon sy'n cyfyngu ar gynhyrchiant. Mae'r afiechydon yma sy'n cyfyngu ar gynhyrchiant yn cynnwys Adenocarcinoma Ysgyfeiniol Defaid/Jaagsiekte (OPA), Maedi Visna (MV), Caseous Lymphadenitis (CLA), afiechyd Johne (OJD) ac afiechyd Border (BD). Gelwir yr afiechydon yma yn 'afiechydon rhewfryn' gan eu bod yn afiechydon lle mae canran fawr o'r broblem yn is-glinigol, ynghudd, ar anifeiliaid sy'n eu cario neu yn syml na allwch eu gweld (h.y. dim ond darn bach o'r rhewfryn sydd yn y golwg).

Mae ymchwiliad i iechyd cyffredinol y ddiadell a'r afiechydon rhewfryn hyn sy'n cyfyngu ar gynhyrchiant wedi bod yn weithredol ar fferm ffocws Cyswllt Ffermio ger Aberhonddu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Darganfu Peter a Nicola Drew o College Farm yn Nhrefeca bod ganddynt OPA yn eu diadell yn dilyn post mortem ar famog oedd wedi marw yn sydyn yn 2015. Roedd y famog yma mewn cyflwr da pan fu farw, gan ddangos nad yw pob dafad sy'n cario'r afiechydon yma yn denau ac yn dangos arwyddion clinigol. Trwy weithio'n glos gyda'r milfeddyg lleol, Rosie Gibson o Honddu Vets, prif nod y prosiect hwn oedd deall gwir statws iechyd y ddiadell ar College Farm; dynodi pa afiechydon (os o gwbl) oedd yn bresennol, a datblygu camau rheoli ac atal effeithiol.

## Beth a wnaed a beth a ganfuwyd?

Cymrwyd samplau gwaed o gyfanswm o 18 o famogiaid i'w lladd oedd yn cael eu gwerthu oherwydd eu cyflwr, ac fe'u profwyd am Afiechyd Johne, CLA, afiechyd Border ac MV. Daeth y canlyniadau yn ôl yn negyddol am yr afiechydon hyn i gyd. Cyfrifwyd wyau ysgarthol a phrofwyd am coproantigen llyngyr hefyd, a daeth y cyfan yn ôl yn negyddol.

Cynhaliwyd 4 post mortem yn ystod y flwyddyn ar famogiaid a fu farw heb esboniad neu yn sydyn. O'r 4 post mortem, cafwyd briwiau tiwmor yn ysgyfaint 2 o'r mamogiaid, a chadarnhawyd trwy histoleg mai OPA oedd yn gyfrifol. Yn y ddau achos, niwmonia oedd achos y farwolaeth, ond fel heintiad eilaidd i OPA.

Adolygwyd cynllun iechyd y ddiadell ar College Farm a'i ddiweddaru i gynnwys canfyddiadau'r prosiect.

Aed ati i gynnal sganio ysgyfaint/trawsthorasig ar tua 250 o famogiaid magu i bennu a oedd OPA yn bresennol. O'r 250 o famogiaid a sganiwyd, gwelwyd bod gan 6 mamog friwiau tiwmor ar eu hysgyfaint (sy'n arwydd sicr o rai sy'n cario OPA). Roedd y 6 mamog yma yn famogiaid iach yr olwg gyda sgôr cyflwr corff o tua 3-4, ac nid oeddynt yn dangos unrhyw arwydd o salwch. Dengys hyn y gall OPA fyw mewn diadell heb ei ganfod am nifer o flynyddoedd cyn dangos unrhyw arwyddion gweladwy. Mae'r ddiadell ar College Farm yn cael ei lleihau, felly roeddent yn gallu cael gwared ar unrhyw ddefaid dan amheuaeth yn syth yn hytrach na'u cadw ar wahân ac ystyried eu hail-sganio.

## Beth nesaf i'r ddiadell ar College Farm?

Wrth edrych tua'r dyfodol, mae'r teulu Drew ar Fferm y Coleg yn anelu at gael diadell sydd mor iach a chynhyrchiol â phosibl. Un ffordd i sicrhau hyn yw cynnal perthynas waith agos â'u milfeddyg, ac adolygu a diweddaru'r cynllun iechyd diadell yn barhaus. Maent hefyd wedi penderfynu symud o brynu eu holl stoc cyfnewid i mewn i gadw eu rhai eu hunain. Bydd hyn yn lleihau'r nifer o anifeiliaid sy'n cael eu prynu i mewn, a fydd yn anochel yn lleihau'r nifer o afiechydon sy'n cael eu cludo i mewn, gan gadw'r ddiadell yn iachach. Maent yn anelu at barhau i sgrinio eu defaid am OPA (gan y gall tiwmorau ddatblygu yn eithaf cyflym ar ôl dechrau), a chael gwared ar unrhyw famogiaid sy'n cario'r afiechyd.







**Lluniau:**
*Sganio trawsthorasig am OPA ar College Farm*

Storfa Sgiliau
Skills Store

## Storfa Sgiliau

…yr adnodd storio data diogel, ar-lein
ar gyfer datblygiad personol a phroffesiynol

Mae Cyswllt Ffermio wedi datblygu system gofnodi Datblygiad Proffesiynol Parhaus i gasglu manylion yr holl weithgareddau trosglwyddo gwybodaeth a hyfforddiant a gwblhawyd gan unigolion sydd wedi cofrestru yn ystod y rhaglen bresennol.

**Gall yr holl wybodaeth y gallwch chi, eich staff neu unrhyw ddarpar gyflogwyr neu sefydliadau fod ei hangen fod ar gael mewn dim o dro gan gynnwys:**

- tystysgrifau hyfforddiant
- cofnod o bresenoldeb mewn digwyddiadau Cyswllt Ffermio a digwyddiadau trosglwyddo gwybodaeth eraill
- ysgoloriaethau, ymweliadau astudio a chynlluniau datblygu personol eraill
- profiad gwaith

**Bydd Storfa Sgiliau yn eich galluogi i…**

- ✓ gael mynediad ar unwaith at adroddiad digidol, neu adroddiad mae modd ei lawrlwytho, sy'n cynnwys eich holl sgiliau, hyfforddiant a chyraeddiadau academaidd/proffesiynol perthnasol
- ✓ rhoi tystiolaeth o'r hyfforddiant a ddilynwyd ar gyfer Cynlluniau Gwarant Fferm a sefydliadau yn y gadwyn gyflenwi gan gynnwys cyfanwerthwyr, adwerthwyr ac ati.
- ✓ cael mynediad at y ffeithiau angenrheidiol i ddiweddaru eich CV

**Er mwyn gallu defnyddio'r Storfa Sgiliau rhaid i chi fod wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio, a mewngofnodi i'ch cyfrif BOSS drwy Sign on Cymru.**

**Dysgwch sut i storio a diweddaru eich holl gofnodion perthnasol trwy fynd i: www.llyw.cymru/cyswlltffermio**

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

FARMING connect
cyswllt FFERMIO
08456 000 813




# Cyrsiau cyfrifiadurol ar gael ar gyfer dechreuwyr

Mae technoleg yn cael ei ddefnyddio fwyfwy ar draws pob diwydiant. Gall Cyswllt Ffermio ddarparu cwrs hyfforddiant cyfrifiadurol chwe wythnos o hyd wedi'i ariannu'n llawn ar gyfer pob unigolyn sydd wedi cofrestru. Bydd y sesiynau wythnosol dwy awr o hyd yn addas ar gyfer dechreuwyr ac yn rhoi cipolwg ar fodiwlau cychwynnol megis Microsoft Word, taenlenni Excel, rheoli negeseuon e-bost, defnyddio'r rhyngrwyd a chanllaw i ddefnyddio gwefan Llywodraeth Cymru.

Bydd y sesiynau cyfeillgar a hygyrch hyn yn cael eu darparu ledled Cymru gan diwtoriaid o golegau diwydiannau'r tir ar lefel ac ar gyflymder sy'n addas i bawb. Gall datblygu eich sgiliau TG eich cynorthwyo i reoli eich busnes yn fwy effeithlon. Mae arbed arian ac amser yn allweddol i unrhyw fusnes a gall defnyddio technoleg eich cynorthwyo i wneud hynny.

Mae'r cyrsiau ar gael i unigolion a busnesau sydd wedi cofrestru gyda **Cyswllt Ffermio**.

I archebu eich lle neu am ragor o fanylion, cysylltwch â'r **Ganolfan Wasanaeth** ar **08456 000 813**.

| | |
|---|---|
| **NPTC, Canolfan Adnoddau'r Cyfryngau, Ffordd Oxford, Llandrindod, Powys LD1 6AH**<br>08/01, 15/01, 22/01, 29/01, 05/02, 12/02 | 18:00 - 20:00 |
| **Coleg Sir Gar, Campws Gelli Aur, Caerfyrddin SA32 8NJ**<br>08/01, 15/01, 22/01, 29/01, 05/02, 12/02 | 18:00 - 20:00 |
| **NPTC, Fronlas Farm, Ffordd Mochdre, Y Drenewydd, Powys SY16 4JA**<br>09/01, 16/01, 23/01, 30/01, 06/02, 13/02 | 19:00 - 21:00 |
| **Coleg Sir Gar, Campws Pibwrlwyd, Caerfyrddin SA31 2NH**<br>09/01, 16/01, 23/01, 30/01, 06/02, 13/02 | 18:00 - 20:00 |
| **NPTC, Coleg Bannau Brycheiniog, Penlan, Aberhonddu, Powys LD3 9SR**<br>10/01, 17/01, 24/01, 31/01, 07/02, 14/02 | 18:00 - 20:00 |
| **Coleg Cambria, Llysfasi, Ffordd Rhuthun, Rhuthun, Sir Ddinbych LL15 2LB**<br>14/01, 21/01, 28/01, 04/02, 11/02, 25/02. | 16:30 - 18:30 |
| **Coleg Penybont, Engage Training, Queens Road South, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 3UT**<br>16/01, 23/01, 30/01, 06/02, 13/02, 20/02 | 18:00 - 20:00 |
| **Coleg Sir Benfro, Pont Merlins, Hwlffordd SA61 1SZ**<br>22/01, 29/01, 05/02, 12/02, 19/02, 26/02 | 18:00 - 20:00 |
| **Grwp Llandrillo Menai, Campws Glynllifon, Ffordd Clynnog, Caernarfon LL54 5DU**<br>27/01, 03/02, 10/02, 24/02, 02/03, 09/03 | 18:00 - 20:00 |

**492**
**DATGANIAD DIDDORDEB**
WEDI'U CYFLWYNO ERS DECHRAU'R RHAGLEN

**201**
O GYFRANOGWYR
**GWEITHREDOL**

**MENTRO**
Niferoedd dan sylw


mentro venture
**CEFNOGI** MENTRAU AR Y CYD
**SUPPORTING** JOINT VENTURES




**YN CHWILIO AM BARTNER**

**WRTHI'N DATBLYGU MENTER AR Y CYD**

**WEDI CWBLHAU MENTER AR Y CYD**






**41,000**
ERW
O DIR WEDI COFRESTRU

**119**
WEDI CANFOD
**PARTNER**

# Menter ar y cyd hynod lwyddiannus i ddau deulu o ffermwyr o Sir Gâr drwy Raglen Mentro Cyswllt Ffermio

**Bu'r ffermwr llaeth, Bryan Thomas a'i wraig, Mary yn denantiaid yn wreiddiol ar ddaliad 270 erw Berllan Dywyll yn Llangathen, ac maen nhw wedi bod yn berchen ar y fferm ac yn byw yno ers dechrau'r 1990au.**

Yn raddol, maen nhw wedi adeiladu buches odro o wartheg Holstein pedigri yn bennaf. Mae'r llaeth yn cael ei werthu i Muller ar gontract blynyddol gyda'r fuches gynhyrchiol o 210 o wartheg ar hyn o bryd yn cynhyrchu tua 9,000 litr y fuwch bob blwyddyn.

Pan ddechreuodd y pâr gynllunio ar gyfer y dyfodol, gan fod eu dau fab wedi dewis dilyn gyrfa oddi ar y fferm, penderfynodd y ddau gomisiynu John Crimes, un o'r partneriaid yng nghwmni CARA Wales, i'w helpu i gynllunio cyfeiriad strategol y fferm. Wrth i Bryan fynd yn hŷn, roedd dyfodol y fferm yn un o'r agweddau y buont yn ei drafod, ac ar ôl ystyried yn ddwys, penderfynodd Bryan ei fod yn barod i gynnig cyfle i ddod â ffermwr ifanc newydd i mewn i'r busnes fel menter ar y cyd.

"Mae'n rhaid i'w ddwy ochr wneud gwaith ymchwil manwl a chymryd digon o amser i ystyried a fyddai menter ar y cyd yn llwyddo, yn seiliedig ar ymddiriedaeth a thryloywder ynglŷn â gobeithion a dyheadau at y dyfodol," meddai Bryan.

Cafodd John Crimes, CARA Wales, ei gyflwyno i Dyfrig Davies. Roedd John yn edmygu agwedd Dyfrig tuag at waith, ei ymrwymiad a'i ddiddordeb mewn ffermio llaeth, geneteg, bridio a da byw, a sylweddolodd John fod Dyfrig, a oedd yn ei ugeiniau cynnar ac yn byw gartref ger fferm Berllan Dywyll ar y pryd, yn ofalwr buches galluog a oedd wedi datblygu dealltwriaeth a phrofiad. Cafodd y ddwy ochr eu paru gyda'i gilydd yn fuan wedi hynny.

O ganlyniad i gefnogaeth drwy raglen Mentro Cyswllt Ffermio, derbyniodd y bartneriaeth gyngor busnes, ariannol a chyfreithiol wedi'i ariannu'n llawn, a'u galluogodd nhw i greu cytundeb cytbwys a ffurfiol, gan gyfrifo sut i rannu'r buddion a'r risgiau'n ymwneud â menter ar y cyd.

"Diolch i'r rhaglen Mentro, derbyniodd y ddwy ochr gefnogaeth wedi'i deilwra, ac yn ei dro, mae hynny wedi eu galluogi i roi sylw i agweddau technegol ac adeiladu perthynas wrth greu trefniant busnes llwyddiannus, ac mae ganddyn nhw gytundeb cytbwys ffurfiol o fewn fframwaith cyfreithiol priodol," meddai John.

Mae Dyfrig bellach yn ffermwr llawn amser gyda rhan bersonol yn y busnes fferm llwyddiannus, ac mae ef a'i deulu'n byw mewn tŷ nid nepell o brif fuarth y fferm. Mae'r trefniant yn golygu bod Bryan a Mary wedi gallu aros ar eu fferm deuluol gan wybod y bydd y fferm yn nwylo medrus a ffyddlon Dyfrig un diwrnod. Mae gan Dyfrig fewnbwn i'r strategaeth fridio ac fe lwyddodd y bartneriaeth i gomisiynu John i greu cynllun busnes wedi'i ddiweddaru, gyda rhagolwg ariannol am dair blynedd, wedi'i ariannu'n llawn drwy Wasanaeth Cynghori Cyswllt Ffermio fel rhan o'r broses Mentro.

"Mae ein partneriaeth yn canolbwyntio gymaint ar gynllunio ar gyfer y dyfodol ac arferion rheoli strategol ag ar agweddau'r busnes ffermio o ddydd i ddydd. Rydym ni'n dau'n dysgu oddi wrth ein gilydd ac yn manteisio'n llawn ar wasanaethau Cyswllt Ffermio," meddai Bryan.

Mae Bryan, Mary a Dyfrig yn bartneriaid busnes cyfartal, ac mae pob penderfyniad mawr yn cael ei wneud yn ddemocrataidd. Mae elw'r fferm yn cael ei rannu'n gyfartal ar ôl tynnu'r cyflogau a gytunwyd arnynt eisoes.

Am ragor o fanylion, ewch i:
**www.llyw.cymru/cyswlltffermio**


# Cysylltwch â ni


Einir Haf Davies
Rheolwr
01970 636297
einir.davies@menterabusnes.co.uk

Gwydion Owen
Swyddog Mentro Gogledd Cymru
*(Yn gweithio bob dydd Mawrth, Mercher a Gwener.)*
01745 770039
gwydion.owen@menterabusnes.co.uk

Delyth Jones
Swyddog Mentro De Cymru
*(Yn gweithio bob dydd Llun, Mawrth a Iau)*
01970 661422
delyth.jones@menterabusnes.co.uk

## Cynaeafu silwair mewn modd sy'n garedig i wenyn




# Canlyniadau cynnar prosiect peillwyr y ffermydd llaeth yn cadarnhau bod nifer y gwenyn yn codi


**Mae chwech o gynhyrchwyr llaeth organig o wahanol ardaloedd o Gymru sy'n cyflenwi i Calon Wen wedi bod yn tyfu cymysgedd hadau o wahanol rywogaethau, gan gynnwys perlysiau sy'n blodeuo, codlysiau a glaswellt, i brosiect tair blynedd gan Bartneriaeth Arloesi Ewrop (EIP Wales).**

Mae'r prosiect yn archwilio beth fydd effaith tyfu a rheoli'r rhywogaethau hyn ar y peillwyr. Mae data o'r flwyddyn gyntaf wedi dangos bod darparu ffynhonnell o baill a neithdar i beillwyr o fis Mawrth hyd fis Hydref, a chadw pedwar metr o leiniau heb eu torri mewn caeau sy'n cael eu torri ar gyfer silwair, wedi cynyddu'r niferoedd yn sylweddol.

Yn New Hall Farm, y Waun, lle mae Alan a Heather Rogers yn godro190 o wartheg, mae arolwg wedi canfod bod peidio torri'r planhigion sy'n blodeuo wedi cynyddu nifer y peillwyr. Mewn un rhan o gae cododd y nifer o 5 i 102 ac mewn rhan arall cododd o 12 i 112. Roedd nifer o'r cacwn a welwyd yn yr arolwg yn fathau tafod hir, sef y math sydd wedi bod yn diflannu gyflymaf ym Mhrydain. Roedd arolygon o ffermydd eraill yn y prosiect yn dangos canlyniadau tebyg, meddai Sinead Lynch, Uwch Swyddog Cadwraeth yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn, sef sefydliad partner sy'n gyfrifol am y gwaith technegol ac arolygon.

Mae Alan a Heather Rogers wedi bod yn tyfu gwyndonnydd amrywiol ers with mlynedd gan fod y rhywogaethau yma'n perfformio'n well mewn amgylchiadau sych. Mae'r fferm mewn glawsgodfa, ac o ganlyniad, mae lefelau glaw yn isel o'i gymharu â rhanbarthau eraill o Gymru.

## Manteision gwyndonnydd amlrywogaeth




"Mae'r rhywogaethau mwy traddodiadol yr ydym wedi bod yn eu tyfu, megis troed y ceiliog, yn gwreiddio'n ddyfnach, felly maen nhw'n perfformio'n well na rhygwellt mewn amodau sych, yn enwedig ar systemau organig fel ein system ni, gan nad ydym yn ychwanegu nitrogen," meddai Mr Rogers. Bydd y rhywogaethau yma hefyd yn tyfu'n gynharach yn y tymor, sy'n cynnig buddion uniongyrchol i'w system sy'n lloia yn y gwanwyn.

Heb beillwyr, byddai llawer o gnydau fel pys a ffa yn cael trafferth tyfu felly mae'r ffermwyr sy'n cymryd rhan yn y prosiect yn dweud ei bod hi o fudd i gynhyrchwyr bwyd ddiogelu dyfodol y pryfed hyn.

Mae pob un o'r chwe fferm yn tyfu dau gae o wndwn llysieuol ac mae'r llain o'r cae sy'n cael ei adael heb ei dorri yn newid ochr bob yn ail dro y torrir y silwair - mae'r llain heb ei dorri o'r toriad cyntaf yn cael ei gynaeafu yn yr ail doriad ac yn y blaen.

Er bod rhywfaint o effaith ar y cynnyrch silwair cyfan o beidio torri'r cnwd cyfan, pan fydd y lleiniau'n cael eu cynaeafu ar ddiwedd y toriad nesaf, maent yn ychwanegu ffynhonnell bwysig o ffibr i'r bwyd, meddai Lynfa Davies, rheolwr rhaglen EIP Wales. "Trwy gynhyrchu mwy o borthiant deunydd sych mae'n bosibl y gellid gostwng faint o wellt sydd ei angen yn y dogn," meddai.

Dywedodd Ms Davies fod y prosiect yn enghraifft dda o grŵp o ffermwyr oedd wedi cydnabod buddion ehangach y peillwyr ar eu ffermydd ac a oedd eisiau archwilio dulliau o gefnogi'r nifer o beillwyr heb effeithio ar gynhyrchiad eu busnesau. Mae'r rheiny sy'n cymryd rhan yn y project 'Porfa i Beillwyr' yn gobeithio y gall y canfyddiadau helpu i ddylanwadu ar bolisi'r llywodraeth ar gynlluniau amaeth-amgylchedd yn y dyfodol.

### Dysgu mwy am EIP Wales

Ebostiwch **eipwales@menterabusnes.co.uk** neu ewch i **www.llyw.cymru/cyswlltffermio** am fwy o wybodaeth.

# Cefnogaeth ac arweiniad ar gyfer y sector cig coch



FARMING connect
cyswllt FFERMIO
08456 000 813

Cymorthfeydd a chlinigau un i un unigryw wedi'u cyllido'n llawn

Ffenestr ar agor rhwng **01/11/2019 - 31/01/2020**

*Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y ddau gategori busnes mae'n rhaid i'r busnes fod wedi cymryd rhan yn y rhaglen Meincnodi Cig Coch gyda Hybu Cig Cymru / Cyswllt Ffermio.*


| | |
|---|---|
| **Cymorthfeydd un i un** | Apwyntiad 1 awr gydag ymgynghorydd i drafod eich adroddiad meincnodi unigol. |
| **Clinigau ar-fferm** | Ymgynghoriad ar eich fferm gyda chynghorydd busnes i drafod sut y gallwch gynyddu allbynau a gwella effeithlonrwydd. |

*Ar gael i bob cynhyrchwr cig coch.*

| | |
|---|---|
| **Clinigau profion iechyd anifeiliaid** | Samplo, profi, ac adborth un i un gan filfeddygon lleol - £250 o gyllid fesul busnes. |
| **Clinigau ar fferm ar leihau gorbenion** | Cyngor arbenigol am ynni, pŵer a pheiriannau a gorbenion eraill ble mae arbedion yn bosib. |

Bydd y clinigau a'r cymorthfyedd ar gael ar sail y cyntaf i'r felin.

I gofrestru ar gyfer un neu fwy o'r clinigau neu'r cymorthfeydd hyn, cysylltwch â **Chanolfan Wasanaeth Cyswllt Ffermio 08456 000 813**.



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**www.llyw.cymru/cyswlltffermio**

# Amserlen Digwyddiadau

| **Rheoli Parasitiaid - Rhan 2:** Y clafr, llau a llyngyr yr iau | |
|---|---|
| 19/11/19<br>18:30 - 21:30 | Clwb Rygbi Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion, SA48 7JA |
| Milfeddygon ProStock: 01267 233 266 | |

| Gweithdy Mesur i Reoli | |
|---|---|
| 20/11/19<br>14:00 - 17:00 | Canolfan Adnoddau'r Cyfryngau, Llandrindod, Powys, LD1 6AH |
| Y Ganolfan Wasanaeth: 08456 000 813<br>farmingconnect@menterabusnes.co.uk | |

| Gweithdy Cyfryngau Cymdeithasol | |
|---|---|
| 20/11/19<br>16:00 - 18:00 | The Castle of Brecon Hotel, Aberhonddu, Powys, LD3 9DB |
| Y Ganolfan Wasanaeth: 08456 000 813<br>farmingconnect@menterabusnes.co.uk | |

| Gwarchod eich busnes fferm ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol - a yw menter ar y cyd yn opsiwn? | |
|---|---|
| 20/11/19<br>19:30 - 21:30 | Hotel Mariners, Hwlffordd, Sir Benfro, SA61 2DU |
| Delyth Jones - 01970 631 422<br>delyth.jones@menterabunes.co.uk | |
| 09/12/19<br>19:30 - 21:30 | Marchnad Da Byw Y Trallwng, Y Trallwng, Powys, SY21 8SR |
| Gwydion Owen - 01745 770 039<br>gwydion.owen@menterabusnes.co.uk | |
| 10/12/19<br>19:30 - 21:30 | The Manor, Crucywel, Powys, NP8 1SE |
| Delyth Jones - 01970 631 422<br>delyth.jones@menterabunes.co.uk | |

| Y Ffair Aeaf | |
|---|---|
| 25-26/11/19 | Maes y Sioe Frenhinol, Llanelwedd, Llanfair ym Muallt, Powys, LD2 3SY |

| **Colledion Ŵyna - Rhan 1:** Erthyliad a Maeth | |
|---|---|
| 20/11/19<br>11:30 - 14:30 | The Crooked Horn, Brynffordd, Treffynnon, Sir y Fflint, CH8 8AX |
| Milfeddygon Wern: 01824 703 066 | |
| 10/12/19<br>18:30 - 21:30 | Clwb Rygbi Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion, SA48 7JA |
| Milfeddygon ProStock: 01267 233 266 | |
| 18/12/19<br>14:00 - 17:00 | Clwb Rygbi COBRA, Meifod, Powys, SY22 6DA |
| Camlas Farm Vets LLP: 01938 553 124 | |

| **Colledion Ŵyna - Rhan 2:** Colledion ar ôl ŵyna - rhwng ŵyna a diddyfnu | |
|---|---|
| 26/11/19<br>19:30 - 22:30 | Neuadd Bentref Llanarth, Llanarth, Sir Fynwy, NP15 2AU |
| Gwasanaethau Milfeddygol Farm First: 01873 840 167 | |
| 05/12/19<br>19:30 - 22:30 | Neuadd Bentref Llanarth, Llanarth, Sir Fynwy, NP15 2AU |
| Gwasanaethau Milfeddygol Farm First: 01873 840 167 | |

| Creu gwefan | |
|---|---|
| 25/11/19<br>14:00 - 16:00 | Kings Arms Hotel, Y Fenni, Sir Fynwy, NP7 5AA |
| 27/11/19<br>14:00 - 16:00 | Glasdir, Plas yn Dre, Llanrwst, Conwy, LL26 0DF |
| 04/12/19<br>13:30 - 15:30 | Canolfan Gymunedol Tŷ Bloomfield, Arberth, Sir Benfro, SA67 7ES |
| Y Ganolfan Wasanaeth: 08456 000 813<br>farmingconnect@menterabusnes.co.uk | |

| Arallgyfeirio Fferm - A yw cadw moch yn opsiwn ar gyfer eich fferm? | |
|---|---|
| 27/11/19<br>19:00 - 21:00 | Nant-y-Ffin Hotel & Motel, Llandissilio, Sir Benfro, SA66 7SU |
| 28/11/19<br>19:00 - 21:00 | Three Salmons Hotel, Brynbuga, Sir Fynwy, NP15 1RY |
| Dafydd Owen - 07985 379 903<br>dafydd.owen@menterabusnes.co.uk | |

# Amserlen Digwyddiadau

## Gweithdy Deall Clefyd Johne's

| | |
|---|---|
| 28/11/19<br>19:00 - 22:00 | Neuadd Bentref Mainstone,<br>Bishops Castle, SY9 5LQ |
| Bishops Castle Vets: 01588 638 356 | |

## Paratoi at ŵyna

| | |
|---|---|
| 02/12/19<br>19:30 - 21:30 | The Kings Head, Llanrhaeadr,<br>Dinbych, Sir Ddinbych, LL16 4NL |
| 03/12/19<br>19:30 - 21:30 | Llanina Arms Hotel, Llanarth,<br>Ceredigion, SA47 0NP |
| 05/12/19<br>19:30 - 21:30 | The Purple Badger, Parc Gwyliau<br>Llanrhidian, Abertawe, SA3 1EU |
| Y Ganolfan Wasanaeth: 08456 000 813<br>farmingconnect@menterabusnes.co.uk | |

## Fforwm Ffermwyr Tenant

| | |
|---|---|
| 03/12/19<br>19:30 - 21:30 | Y Pafiliwn, Maes Sioe Sir Benfro,<br>Hwlffordd, SA62 4BW |
| 04/12/19<br>19:30 - 21:30 | The Beaufort, Rhaglan, Brynbuga,<br>Sir Fynwy, NP15 2DY |
| Del Evans - 01970 600 176<br>delyth.evans@menterabusnes.co.uk | |

## Gweithdy Adnodd Cofnodion Fferm WLBP

| | |
|---|---|
| 04/12/19<br>14:00 - 16:00 | M-SParc, Gaerwen,<br>Ynys Môn, LL60 6AG |
| 05/12/19<br>18:00 - 20:00 | Caffi Gwinllan Pant Du,<br>Caernarfon, Gwynedd, LL54 6HE |
| 09/12/19<br>14:00 - 16:00 | Coleg Cambria Llysfasi, Rhuthun,<br>Sir Ddinbych, LL15 2LB |
| 10/12/19<br>14:00 - 16:00 | Beaufort Park Hotel, Yr Wyddgrug,<br>Sir y Fflint, CH7 6RQ |
| 11/12/19<br>14:00 - 16:00 | Glasdir, Plas yn Dre, Llanrwst,<br>Conwy, LL26 0DF |
| Y Ganolfan Wasanaeth: 08456 000 813<br>farmingconnect@menterabusnes.co.uk | |

## A yw cnwd cyfan yn opsiwn economaidd i silwair porfa?

| | |
|---|---|
| 04/12/19<br>14:00 - 16:00 | Cwm Cothi, Crugybar,<br>Sir Gaerfyrddin, SA19 8SD |
| Sarah Hughes - 07399 600 146<br>sarah.hughes@menterabusnes.co.uk | |

## Gweithdy Lleihau Cloffni Da Byw Llaeth

| | |
|---|---|
| 04/12/19<br>10:30 - 13:30 | Holt Lodge Hotel,<br>Wrecsam, LL13 9SW |
| Milfeddygon Daleside: 01978 311 444 | |

## CYMORTHFEYDD (09:00 - 17:00)

| | | |
|---|---|---|
| Cymhorthfa Gynllunio | 19/11/19 | Rhaeadr Gwy |
| Cymhorthfa Marchnata ac Arallgyfeirio | 21/11/19 | Pwllheli |
| Cymhorthfa Gynllunio | 28/11/19 | Y Bont-faen |
| Cymhorthfa Gynllunio | 03/12/19 | Llanrwst |
| Cymhorthfa Ffermwyr Tenant | 03/12/19 | Hwlffordd |
| Cymhorthfa Ffermwyr Tenant | 04/12/19 | Rhaglan |
| Bradley Lewis - 01970 600 174<br>bradley.lewis@menterabusnes.co.uk | | |
| Cymhorthfa Gynllunio | 10/12/19 | Caerfyrddin |
| Cymhorthfa Marchnata ac Arallgyfeirio | 12/12/19 | Y Drenewydd |
| Cymhorthfa Marchnata ac Arallgyfeirio | 17/12/19 | Wrecsam |
| Helen Lewis - 01970 631 425<br>helen.lewis@menterabusnes.co.uk | | |